# Cofnodion Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru
# Dydd Mercher, 23 Chwefror 2005

| **Yn bresennol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Martin Hooker (Cadeirydd) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Steve Bool (Ysgrifennydd) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>H Towns – Cyngor Sir Gaerfyrddin<br>K Warren – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>G Reay – Lludw Cenedlaethol<br>R Amundson – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>J Hooker – Cyngor Dinas Casnewydd<br>K Maddock-Jones – Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>N R Morgan – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot<br>M Lucas –Cyngor Bro Morgannwg<br>C A Williams – Cyngor Sir / Parc Cenedlaethol Sir Benfro<br>R Brown – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>M Lawer – Tarmac (QPA)<br>A Bull – Cyngor Sir Powys<br>D Cameron – BGS<br>M Frampton – QPA (Hanson)<br>D Pollock – QPA<br>D Harding – QPA (BMAPA)<br>G Bishop – Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru (gwahoddedig)<br>C Morgan – Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>S Martin – Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>T Gilman – BAA<br>S Williams – Cyngor Sir Caerdydd<br>A Wilcock – Cyngor Sir Fynwy<br>D Canney – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>G Dorrington – Ceredigion<br>W Towell – QPA (RMC) | |
| **1. Ymddiheuriadau** | |
| A Wilkes (EA)<br>J Cuddy (Cuddy Demolition)<br>R Hilton (ODPM)<br>B Hollington (Llywodraeth Cynulliad Cymru)<br>D Highley (BGS)<br>R Henderson (Abertawe)<br>K Seaman QPA (BMAPA)<br>N Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful)<br>Tony Murray (Ystadau'r Goron) | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | |

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir.

**3. Materion sy'n codi**

Dim.

**4. Cyflwyniad gan TRL (ceisiadau am dywod chwareli tywodfaen) – Martin Lamb**

Cafodd y grŵp gyflwyniad gan Martin Lamb o *TRL consultants* am geisiadau ar gyfer tywod chwareli tywodfaen yn Ne Cymru.

Cadarnhaodd ML fod yr ymchwil yn cael ei lledaenu ar hyn o bryd ac y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Sylwodd DP fod y tywod hwn yn gynnyrch cost isel a bod y pentyrrau mawr yn etifeddiaeth o'r Dreth Agregau.

Cymharodd ML hyn â thywod morol ond cydnabuwyd mai'r gwahaniaeth mawr oedd bod angen golchi/prosesu tywod o chwareli tywodfaen.

Nododd AB yr angen am broses fel rhwystr pwysig i farchnata llwyddiannus ynghyd â'r gofyn am reolaeth gaeth o ran cynnwys lleithder.

Cadarnhaodd DP y gallai'r diwydiant ei werthu ond byddai'r dreth yn gorfodi cost o £1.60 y tunnell.

**5. Adroddiad y Cadeirydd**

Cadarnhaodd MH fod POS wedi ystyried MPS1 a'r cyfarwyddyd arfer da, ond nid yw'r ddogfen yn berthnasol i Gymru. Ni roddir ystyriaeth i allforio/mewnforio agregau rhwng Cymru a Lloegr a dywedwyd bod Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ystyried hyn mewn dogfen gyffredinol am gynadalwyedd ar gyfer y DU.

Cafwyd cyfarfod rhwng LICC / Capita Symonds ynghylch y berthynas rhwng trwyddedu dan y Ddeddf Dŵr a'r system gynllunio. Nodwyd nifer o anghysondebau a bydd yr ymgynghorwyr a benodwyd yn ystyried y rhain ymhellach ac yn eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

**6. Adroddiad yr Ysgrifennydd**

Adroddodd SB mai dim ond un ACM oedd ei angen i gadarnhau cynrychiolaeth aelodau ar gyfer y Fforwm Aelodau DTRh. **GD**

Dosbarthwyd ffurflenni Arolwg Blynyddol 2004 ac mae rhai wedi eu dychwelyd yn barod. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 1 Mawrth **PAWB**

| | |
|---|---|
| 2005.<br><br>Dan y Ddeddf Rhyddid i Wybodaeth, amlygodd SB gais y QPA na ddylai eu holl aelodau ymateb i Arolwg Blynyddol 2004. Y rheswm a roddwyd am hyn yw, er bod y ffurflenni'n gyfrinachol, nid oes sicrwydd bod y cymal eithrio yn y ddeddf yn cynnwys ffurflenni fel y rhain. Cynghorwyd SB yng nghyfrafod yr ysgrifenyddion GARh yr wythnos ddiwethaf fod camau'n cael eu cymryd i gael cyngor ar y mater hwn. Cadarnhaodd DP ei ddealltwriaeth bod y QPA yn ceisio barn cyfreithiwr ond, dan y ddeddf bresennol, roedd yn bosibl herio unrhyw sefylllfa. Nodwyd y gallai ffurflenni AMRI gael eu heffeithio gan y mater hwn hefyd.<br><br>Gofynnodd MH a oedd y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cael gwybod ond nid oedd unrhyw un yn gwybod a wnaed hyn.<br><br>Cynghorodd SB yr holl swyddogion ACM i gysylltu ag ef ar unwaith os cysylltwyd â nhw i ryddhau gwybodaeth ar ffurflenni'r Arolwg Blynyddol.<br><br>O ran AM2005, mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wedi pennu hwn fel blaenoriaeth uchel yn ei chyllideb ond nid oes arian ar gael ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder bod y wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer gwaith cynllunio mwynau.<br><br>Cadarnhawyd bod y swydd newydd a grëwyd gan gyllid ALSF a gafwyd gan WET / NWRAWP / SWRAWP i ymchwilio i ddefnydd a marchnadoedd ar gyfer adeiladu, dymchwel a gwastraff chwarel wedi cael ei llenwi gan Graham Bishop (cynt o Hanson). Mae'r swydd yn para 4 blynedd.<br><br>Trafodwyd seminar lledaenu'r dydd Gwener hwn am adroddiad gallu amgylcheddol IMAECA. Roedd yn amlwg nad oedd nifer o swyddogion ACM a chynrychiolwyr QPA wedi derbyn gwahoddiad. Cadarnhaodd cynrychiolwyr LICC mai'r ymgynghorwyr a benodwyd – Enviros – oedd yn gyfrifol am ddosbarthu gwahoddiadau ac y cyfeiriwyd y rhain at brif weithredwyr/prif swyddogion cynllunio ac aelodau enwebedig. Hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol o'r manylion.<br><br>**7. <u>Y Diweddaraf am y CDU</u>**<br><br><u>Pen-y-bont ar Ogwr</u> – disgwylir ei fabwysiadu ddiwedd mis Mawrth/ dechrau mis Ebrill.<br><br><u>Sir Gaerfyrddin</u> – ymchwiliad cyhoeddus yn dal i fynd ac yn debygol o ddod i ben dros y Pasg (diwedd mis Mawrth).<br><br><u>Rhondda Cynon Taf</u> – rhoddwyd y gorau iddo ond mae'r CDLl yn symud yn ei flaen. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**PAWB** |

| | |
|---|---|
| Caerffili – CDLl yn symud yn ei flaen.<br><br>Casnewydd – ymchwiliad cyhoeddus ym mis Mawrth a disgwylir adroddiad yr arolygydd ym mis Medi/Hydref 2005.<br><br>Castell Nedd Port Talbot – newidiadau arfaethedig i'w hystyried ganol mis Mawrth a bydd y PT yn dechrau ym mis Mehefin 2005.<br><br>Bro Morgannwg – mabwysiadwyd y CDU yn amodol ar gyfnod ymateb terfynol o 6 wythnos.<br><br>Sir Benfro – daeth cyd-ymchwiliad cyhoeddus y CDU i ben ym mis Rhagfyr 2004 a disgwylir adroddiad yr arolygydd ym mis Mehefin 2005.<br><br>Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – newidiadau cyn yr ymchwiliad i gael eu cyhoeddi cyn bo hir a disgwylir ymchwiliad cyhoeddus ym mis Hydref 2005.<br><br>Powys – trefnwyd yr ymchwiliad ar gyfer canol 2005.<br><br>Caerdydd – mae'r CDLl yn symud yn ei flaen.<br><br>Sir Fynwy – disgwylir i'r YC ddod i ben ym mis Mawrth 2005 a disgwylir adroddiad yr arolygydd ganol/hwyr 2005.<br><br>Blaenau Gwent – diwygiadau pellach i'w hystyried ym mis Mawrth a disgwylir gwrthwynebiadau.<br><br>Ceredigion – YC yn dal i fynd a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mai 2005.<br><br>Llongyfarchwyd Bro Morgannwg am fabwysiad eu CDU. | PAWB |
| **8. Datganiad Technegol Rhanbarthol**<br><br>(i) Cadarnhaodd MH y byddai enwebiadau ar gyfer cadeirydd / is-gadeirydd Fforwm Aelodau'r DTRh yn cael eu hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm (dyddiad i'w drefnu). Dylid rhoi unrhyw enwebiadau i'r ysgrifennydd cyn y cyfarfod. Nodwyd bod PCBB wedi enwebu'r Cynghorydd J Breeze fel is-gadeirydd.<br><br>(ii) Cylchredwyd cofnodion yr is-grŵp DTRh dyddiedig 9 Rhagfyr 2004 i'w trafod.<br><br>(iii) Nodwyd y byddai arolwg 5 mlynedd o'r DTRh.<br><br>(iv) Cytunwyd ar ddyddiad ar ddiwedd mis Mawrth/Ebrill (gan osgoi'r Pasg) ar gyfer cyfarfod cyntaf y Fforwm Aelodau. Tynnwyd | SB |

| | |
|---|---|
| sylw pawb at y posibilrwydd o etholiad ym mis Mai a fyddai'n creu cyfnod 'encilio' 6 wythnos. Golyga hyn y byddai gofyn cynnal y cyfarfod yng nghanol/ar ddiwedd Mawrth er mwyn osgoi oediadau. Awgrymodd QPA cynnal y cyfarfod yn dilyn cyfarfod QPA a drefnwyd ar gyfer 15 Mawrth. | **SM / CM** |
| **9. <u>Ymateb y Gweithgor i'r Ymgynghoriad MPSI</u>** | |
| Trafodwyd y papur a baratowyd gan SB ond gan nad oedd y QPA yn gallu cytuno ar y cynnwys, cytunwyd i beidio ag ymateb i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. | |
| **10. <u>Seminar Dosbarthu IMAECA ar gyfer y Gweithgor</u>** | |
| Gweler paragraff 8 (iv). | |
| **11. <u>Ymchwil Mwynau</u>** | |
| (i) IMAECA – mynegodd CM y farn bod LICC yn gyfforddus â'r fethodoleg a ddatblygwyd fel rhan o'r ymchwil gallu amgylcheddol. Am y tro cyntaf, cafwyd ymagwedd strategol at adnoddau mwynol. | |
| (ii) Mae LICC wedi ariannu'r BGS yn rhannol i wneud gwaith mapio geolegol pellach yng nghanolbarth Cymru. Mae BGS wedi rhoi mwy o staff ar gyfer y dasg ac mae dyddiad cwblhau o 2007 i weld yn rhesymol. | |
| (iii) Mae LICC yn cyd-ariannu ymchwil yn ardal Helwick Bank / Bae Caerfyrddin. Mae'n ymddangos bod y gwaith bron â dod i ben a dylai arwain at ddealltwriaeth gynhwysfawr o ecoleg a deinameg gwaddodion yr ardal. | |
| (iv) GLO BARCIO. Mae pwysau cynyddol ar LICC i annog cwblhad y nodyn cyngor technegol hwn yn dilyn sawl cais am gloddio am lo brig yn Parkslip West (Pen-y-bont ar Ogwr) a Ffos-y-Ffran (Merthyr). | |
| (v) Estynnodd LICC wahoddiad i bawb ystyried materion a allai gael budd o ymchwil bellach. Ar hyn o bryd, ystyrir y mater o dynnu tywod a gro ar lannau môr de-orllewin Cymru ac i ffwrdd o lan y môr yng ngogledd Cymru. | **PAWB** |
| SB i ebostio prosiectau DTRh posibl i LICC. | **SB** |
| (vi) Prosiectau a ariennir gan y Dreth Agregau – TRL (tywod chwareli tywodfaen) a Smiths Gore (gwastraff adeiladu, dymchwel a chwareli). | |
| (vii) Ymchwil y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol – contract GIS i'w osod gan LICC fis Mawrth. Mae hwn yn gynllun peilot gyda Grŵp | |

| | |
|---|---|
| Gwastraff Rhanbarthol De-Orllewin Cymru gyda'r EA, i'w gwblhau ym Mehefin 2005.<br><br>**12. <u>Y Diweddaraf am Dreillio Agregau Morol</u>**<br><br>Cadarnhaodd CM fod LICC yn cydnabod gwerth yr adnodd hwn i'r diwydiant adeiladu yn ne Cymru.<br><br>(i) <u>MADP</u><br><br>Cyhoeddwyd hwn ym mis Tachwedd 2004. Mae'n rhoi cyfeiriad clir i ddyfodol gwaith treillio morol ym Môr Hafren/Aber Hafren.<br><br>(ii) <u>Nash Bank</u><br><br>Mae'r cyfnod o lai o gloddio a fydd yn arwain at derfyniad hollol yn 2010 wedi dechrau. Mae Nash yn cyfrannu 40% o gyfanswm swm y tywod sy'n cael ei gloddio. Sefydlwyd trothwyon ac mae cyfarfodydd monitro rheolaidd yn cael eu cynnal. Ni nodwyd unrhyw newidiadau sylweddol hyd yma.<br><br>(iii) <u>Helwick Bank</u><br><br>Mae'r drwydded bresennol yn dod i ben ym mis Hydref 2005. Derbyniwyd gwrthwynebiadau mawr i'r cais cyfredol. Gan fod y banc wedi ei leoli mewn ardal SAC, mae angen asesiad priodol yn unol â Rheoliadau Cynefin (1994).<br><br>(iv) <u>Nobel</u> (tonnau tywod i'r de-orllewin o Helwick)<br><br>Mae cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae nifer o faterion pwysig wedi bod yn destun trafodaethau.<br><br>(v) <u>North Middle Ground</u><br><br>Mae cais wedi bod dan ystyriaeth ers cyfnod sylweddol. Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad ond nid oes unrhyw amserlen wedi ei chadarnhau.<br><br>(vi) <u>Bristol Deep</u> (de Casnewydd)<br><br>Mae cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a'r farn <u>gynnar</u> yw nad oes unrhyw faterion sylweddol.<br><br>(vii) <u>Culver Sands</u><br><br>Mae cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac mae'r diwydiant yn canfod y safle hwn fel safle i gymryd lle Nash Bank.<br><br>Cadarnhaodd CM fod LICC wedi gwneud cyflwyniad i grwpiau | |

| | |
|---|---|
| gweithredu/diddordeb yn ddiweddar ynghylch Helwick Bank ger Gŵyr. Mae LICC yn teimlo y cymerwyd camau positif i gwblhau'r polisi/ymchwil er mwyn sefydlu fframwaith polisi a chronfa ddata sy'n briodol ar gyfer ystyried ceisiadau unigol am drwyddedau i wneud gwaith treillio morol ym Môr/Aber Hafren.<br><br>(viii) <u>North Bristol Deep</u><br><br>Nid yw'n debygol y caiff nodiadau technegol eu cyflwyno cyn bo hir. Mae'r diwydiant yn dal i boeni a fydd cyflenwad yn bodloni galw yn y dyfodol sydd i weld yn cynyddu.<br><br>Cyfeiriodd DP at waith a wneir gan Capita Symonds ar gyfer South West RPG, sy'n ystyried 3 sefyllfa gyflenwi.<br><br>Cyfeiriodd TG at un o'i safleoedd yn Aberdaugleddau sef gwenithfaen a gymysgir gyda thywod morol. Mynegwyd y farn na ystyrir bod tywod morol yn ddefnydd anamnewidiadwy.<br><br><u>UFA</u><br><br>(i) Amlygodd DP gynhadledd flynyddol QPA / RTPI ar 25 Mai 2005 yng Nghae Ras Wolverhampton. Bydd yn dilyn y fformat arferol ond bydd yr holl waith neilltuo lle/gweinyddol yn cael ei wneud gan RTPI.<br><br>(ii) Ar ran BGS, gwahoddodd Don Cameron bawb a oedd yn bresennol i ddarllen y llenyddiaeth a gynhyrchwyd gan BGS a oedd ar gael yn y cyfarfod.<br><br>(iii) Cytunwyd y dylai'r mater o amodau cyllid y Dreth Agregau fod yn eitem sefydlog ar yr agenda h.y. cynnydd ymchwil, ayb.<br><br>**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>**<br><br>14 Medi 2005.<br><br><u>Troednodyn</u><br>Mae Tony Murray o Ystadau'r Goron wedi datgan y bydd yn ymddeol ym mis Ebrill. Bydd Jason Golder yn cymryd ei le. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**SB** |